Cynulliad Cenedlaethol Cymru National Assembly for Wales

# Canllawiau Digwyddiadau

Mae'r canllawiau canlynol yn berthnasol i bob digwyddiad a gynhelir ar ystâd Cynulliad Cenedlaethol Cymru (y Cynulliad):

- rhaid i geisiadau i gynnal digwyddiadau yn y mannau cyhoeddus gael eu noddi gan Aelod Cynulliad, Pwyllgor neu'r Cynulliad. Rhaid i'r Aelod Cynulliad, neu rywun sy'n ei gynrychioli, fod yn bresennol yn y digwyddiad/arddangosfa/cyfarfod y mae'n ei noddi;
- mae'r Senedd a'r Pierhead yn fannau cyhoeddus ac ni ellir eu cau ar gyfer digwyddiadau ar yr adegau y mae'r cyhoedd yn cael mynediad iddynt;
- yr Aelod Cynulliad sy'n noddi digwyddiad sy'n yn gyfrifol amdano;
- ni ddylid defnyddio'r mannau ar gyfer cynnal digwyddiadau ar ystâd y Cynulliad i wneud elw ariannol, ac er y gellir eu defnyddio i lansio llyfrau ac adroddiadau, ni chaiff arian newid dwylo;
- ni chaniateir i arddangoswyr ddangos prisiau'r gweithiau celf y maent yn eu harddangos; gwelwch y Canllawiau Arddangosfeydd penodol am wybodaeth bellach;
- ni ddylai arddangoswyr osod eu harddangosfeydd na phrofi unrhyw offer clyweledol pan fo'r Cynulliad yn eistedd. Cysylltwch â'ch Swyddog Digwyddiadau i drafod trefniadau priodol;
- defnydd cyfyngedig a ganiateir o'r system sain ar gyfer digwyddiadau a gynhelir yn y Senedd pan fo'r Cynulliad yn eistedd (diwrnodau busnes);
- edrychwch yn y cyfeirlyfr, Mannau Digwyddiad, i weld y manylion am gapasiti'r lle a ddyrannwyd i chi ar gyfer eich digwyddiad;
- ni ddylai cynnwys y digwyddiadau fod yn groes i Bolisi Cyfle Cyfartal y Cynulliad neu dorri unrhyw ddeddfwriaeth (gan gynnwys is-ddeddfau);
- ni ddylai digwyddiadau a chyfarfodydd gynnwys hysbysebion, deunydd masnachol neu ddeunydd sy'n debygol o beri tramgwydd, nac ychwaith unrhyw ddeunydd y bwriedir iddo hyrwyddo amcanion unrhyw blaid neu grŵp gwleidyddol;
- ni ddylid trefnu digwyddiadau ac arddangosfeydd gyda'r bwriad unswydd o hyrwyddo gwaith unrhyw blaid wleidyddol;
- rhaid i ddigwyddiadau min nos orffen fel y bydd pawb wedi gadael yr adeilad erbyn 20.00;
- os bydd y Cyfarfod Llawn yn para'n hwyrach na 19.00, caiff digwyddiad yn y Senedd bara tan 20.30;

- ni chaniateir logos corfforaethol oni bai eu bod yn rhan o drefniant nawdd gyda sefydliad cyhoeddus. Gwaherddir pob math arall o hyrwyddo masnachol;

- rhaid i bob gwahoddiad, hysbysiad neu gylchlythyr a gyhoeddir ar gyfer digwyddiadau a chyfarfodydd arfaethedig ar ystâd y Cynulliad gael eu cyhoeddi yn enw'r Aelod Cynulliad sy'n eu noddi, gyda'i enw wedi'i farcio yn glir ac yn amlwg ar bob deunydd hyrwyddo. Ni chaniateir defnyddio logo'r Cynulliad ar wahoddiadau neu unrhyw ddeunydd hyrwyddo. Rhaid i bob gwahoddiad gael ei gymeradwyo gan staff y Cynulliad cyn iddo gael ei anfon allan.

- ni chaniateir isosod mannau digwyddiadau;

- y trefnwyr sy'n gyfrifol am logi a chynnal unrhyw offer arbenigol a dodrefn sydd eu heisiau ar gyfer eu digwyddiadau a'u harddangosfeydd;

- rhaid trefnu lluniaeth drwy gwmni arlwyo mewnol y Cynulliad, sef Charlton House, drwy ffonio (029) 20 898077 neu drwy anfon e-bost i Catering.cardiffbay@wales.gov.uk;

- cofiwch fod y Neuadd a'r Oriel yn y Senedd yn bennaf yn ardaloedd cyhoeddus lle y gall ymwelwyr â'r Cynulliad ddilyn busnes y Cyfarfod Llawn a'r pwyllgorau ar sgriniau. Mae defnyddio'r mannau hyn ar gyfer digwyddiadau ac arddangosfeydd yn eilradd i'r diben hwn ac ni ddylai digwyddiadau ac arddangosfeydd amharu ar eu prif bwrpas mewn unrhyw ffordd. O'r herwydd, nid yw'r Senedd yn addas ar gyfer arddangosfeydd mawr;

- dylai digwyddiadau fod yn agored i bob un o'r 60 Aelod Cynulliad;

- ni ddylai trefnwyr digwyddiadau a gynhelir yn y Senedd ar ddiwrnodau'r Cyfarfodydd Llawn a chyfarfodydd pwyllgorau (o ddydd Mawrth i ddydd Iau) drefnu areithiau neu gyflwyniadau heb eu trafod ymlaen llaw i gael cadarnhad y Swyddog Digwyddiadau;

- o ran areithiau ar gyfer digwyddiadau yn ystod y dydd yn y Senedd ar ddiwrnodau busnes - dydd Mawrth, dydd Mercher a dydd Iau - dylid eu cynnal rhwng 12.00 a 13.20;

- dylid tefnu bod areithiau ar gyfer digwyddiadau min nos yn y Senedd ar y diwrnodau y cynhelir Cyfarfodydd Llawn - dydd Mawrth a dydd Mercher - yn dechrau ar ôl 18.00;

- ni chaniateir profi cyfarpar clyweledol neu unrhyw offerynnau neu gerddoriaeth yn y Senedd yn ystod y Cyfarfod Llawn neu yn ystod cyfarfodydd pwyllgorau;

- wrth drefnu arddangosfa, rhaid i'r curaduron ddarparu eu technegwyr eu hunain i osod unrhyw waith celf ac i'w dynnu i lawr wedyn;

- mae’r offer sydd ar gael gennym ni yn cynnwys system sain ac unedau clyweledol; rhaid wrth gytundeb ymlaen llaw os dymunwch eu defnyddio yn eich digwyddiad;
- mae’r arddangosfeydd a gynhelir yn yr Oriel mewn man cyhoeddus lle mae lluniaeth yn cael ei weini, ac ni ellir dal Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gyfrifol am unrhyw ddifrod a achosir.
- Os oes angen taith fel rhan o’ch digwyddiad, cysylltwch a’r Tîm Archebu drwy ein switsfwrdd ar 0300 200 6565.